



Datblygu cynnyrch i'w werthu mewn siop fferm

Her Menter a Chyflogadwydd ar gyfer Bagloriaeth Cymru, Cenedlaethol / Sylfaen CA4, a osodwyd gan Addysg LEAF Cymru



Pam yr her hon?

Mae cynhyrchu bwyd sydd wedi cael ei dyfu a'i fagu yn lleol yn bwysig oherwydd nifer o resymau. Mae'n cefnogi'r sector ffermio, a thrwy hynny yn helpu i sicrhau ein cyflenwad bwyd. Mae'n rhoi mwy o arian ym mhocedi busnesau lleol ac mae'n creu swyddi, gan hybu'r economi leol. Yn ogystal, mae'n bwysig fel rhan o'n diwylliant – meddyliwch am deisennau a chawl o Gymru – ac mae'n cael ei werthfawrogi gan dwristiaid.

Daw'r rhan fwyaf o'n bwyd drwy'r archfarchnadoedd, cantinau a chaffis, sydd yn aml wedi cael ei fewnforio hanner ffordd o gwmpas y byd, ond mae'n bosibl hefyd i brynu bwyd lleol drwy farchnadoedd ffermwyr, siopau fferm ac mewn siopau bychain ar ein Stryd Fawr – ac mae'r diddordeb yn hyn yn cynyddu.

Mae cyfle busnes gwyach yma, un sy'n cyfuno cynaliadwydd gydag elw. Yn aml, mae pobl yn fodlon talu ychydig mwy am fwyd os oes stori dda ynghlwm ag ef neu os yw'n arbennig o ffres, blasus neu nodedig. A allwch chi weld bwlch yn y farchnad?



Yr Her

Byddwch chi'n gweithio gyda disgyblion eraill mewn tîm o dri i chwech o bobl ac yn datblygu syniad am gynnyrch drwy ddefnyddio cynhwysion sydd wedi cael eu tarddu yn lleol ac a fydd yn addas ar gyfer ei werthu mewn siop fferm, neu leoliad tebyg. Byddwch chi'n arddangos eich syniad a'i gyflwyno gerbron panel ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n cael eu gofyn. Bydd hyn yn golygu y byddwch chi angen datblygu a dangos rhai sgiliau hanfodol ar gyfer **cyflogadwyedd**, fel cyfathrebu, rhifedd, meddwl yn feirniadol, llythrennedd digidol ac yn y blaen.

Casglu syniadau

Dyma rai syniadau i'ch helpu chi i feddwl am gynnyrch da, a'i farchnata.

- Darganfod pa fwyd sy'n cael ei dyfu a'i fagu yn eich ardal leol. Cysylltwch â LEAF Education, NFU Cymru neu Undeb Amaethwyr Cymru a fydd yn gallu dweud mwy wrthydd chi a'ch rhoi mewn cysylltiad â ffermwyr. Yn ogystal, gallwch ddod o hyd i ardd neu berllan gymunedol, neu fenter arall sy'n tyfu bwyd.
- Ymwelwch â siop fferm leol neu farchnad ffermwyr er mwyn cael syniadau am gynnyrch. Yn ogystal, gallwch chi ymweld ag archfarchnadoedd er mwyn astudio brandio a phrisio a gweld beth y mae pobl yn talu mwy amdano. Gallwch chi weld rhestr o fusnesau bwyd yma: <http://foodinnovation.wales/directory/?lang=cy/>.
- Dod o hyd i gynrychiolydd busnes bwyd i ddod i siarad yn eich ysgol: beth am roi cynnig ar Syniadau Mawr Cymru neu Gyrfaedd Blasus.
- Rhowch gyfweiliad i rieni, athrawon, eich ffrindiau – beth maen nhw'n hoffi ei brynu? Beth sy'n eu denu nhw at gynnyrch penodol? Meddyliwch hefyd am anghenion dietegol penodol sydd gan bobl, neu bryderon ynglŷn â'r amgylchedd. A ydych chi eisiau gwneud rhywbeth ar gyfer ei brynu yn rheolaidd, gan godi mwy am ansawdd, neu eitem fel anrheg foethus?

Rydych chi angen meddwl hefyd am beth yr hoffech chi ei gynhyrchu. Gallai hynny olygu defnyddio llysiau ar gyfer cawl, ffrwythau ar gyfer teisennau, caws ar gyfer quiche, madarch ar gyfer saws, cig ar gyfer pryd parod, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Rhowch dro ar rai ryseitiau a gweld beth sy'n gweithio. Efallai y byddwch chi eisiau dilyn cwrs hylendid bwyd ar-lein os ydych chi'n dymuno parhau i goginio.



Astudiaeth Ddichonoldeb

Y peth nesaf i'w wneud yw cynnal astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn cynnwys ymchwilio i'ch marchnad, nodi pwy yw'r cwsmeriaid posibl, edrych ar y gystadleuaeth a datblygu'r syniad ymhellach.

Byddwch chi angen meddwl am enw brand ar gyfer eich cynnyrch a nodi ei brif bwyntiau gwerthu – cynnyrch lleol, cynnyrch iach, cynnyrch moethus neu gynnyrch newydd – pwy ydych chi'n meddwl a fydd yn ei brynu? Gallwch chi gael syniadau wrth edrych ar gynhyrchion tebyg yn y siopau. Byddwch chi hefyd angen prisio eich cynnyrch a meddwl am becynnu. A allwch chi osgoi defnyddio plastig? Sut fyddwch chi'n adrodd y stori am eich bwyd?

Strategaeth farchnata

Mae stori eglur a chadarnhaol yn allweddol ar gyfer cynllun marchnata da. Un sy'n tynnu sylw at eich cynnyrch. Ambell waith, gelwir hyn yn Bwynt Gwerthu Unigol, neu PGU. Un ffordd i ddechrau yw meddwl am eich gwerthoedd, hynny ydi, yr hyn sydd yn wirioneddol o bwys i chi. Bydd yn eich helpu chi i daro'r nod gyda'ch cwsmeriaid

Cofiwch fod bwyd ynghylch llawer o bethau – mae ynghylch blas a mwynhad, mae ynghylch iechyd, mae'n rhywbeth yr ydym yn ei rannu gyda ffrindiau a theulu, ac mae yn ein cysylltu hefyd â'r byd naturiol. Mae llawer o bobl yn edrych am fwyd sydd wedi cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n llesol i fywyd gwyllt, sy'n defnyddio sgiliau traddodiadol, sy'n darparu cyflogaeth werthfawr i bobl, neu sydd â rhyw fudd ehangach arall. Yng Nghymru, mae gan bobl ymglymiad arbennig o gryf â'r dirwedd ac maen nhw'n hoffi meddwl eu bod yn helpu i'w diogelu.



Hynny yw, mae pobl yn edrych am fwyd sy'n dda iddyn nhw, ac yn dda i'r gymdeithas a'r amgylchedd, ac maen nhw yn aml yn fodlon talu mwy am hyn. Nid y pris yw popeth; mae gwerth am arian yn bwysicach. Pa werth sydd ar eich cynnyrch a sut fyddwch chi'n adrodd y stori honno?

Unwaith y bydd gennych chi syniad a neges farchnata am gynnyrch, gallwch chi ddechrau ei ddatblygu o ddifrif. Gallech chi gynnal sesiynau blasu, rhoi tro ar wahanol fathau o becynnu, dylunio ymgyrch ar-lein, meddwl am leoedd anarferol i'w werthu – byddwch yn greadigol!

Mae llawer o bobl wedi dechrau busnesau bwyd llwyddiannus ar sail syniad gwreiddiol a llawer o waith caled. Gallwch chi weld rhai enghreifftiau ysbrydoledig ynglŷn ag entrepreneuriaid bwyd yn yr adran Adnoddau a welir isod. Pam na wnewch chi roi tro arni?

ADNODDAU

Dyma rai syniadau er mwyn i chi gael dechrau.

- Ymweld â fferm: cysylltwch ag Addysg LEAF am syniadau www.face-cymru.org.uk a <https://leafuk.org/education/leaf-education>
- Dewch o hyd i ffermwr: NFU Cymru www.nfu-cymru.org.uk ac Undeb Amaethwyr Cymru <https://www.fuw.org.uk/>
- Dod i wybod mwy am ffermio ym Mhrydain: www.countrysideclassroom.org.uk
- Dod o hyd i farchnad ffermwyr: <http://www.fmiw.co.uk/>
- Dod o hyd i fusnesau bwyd lleol yng Nghymru: <http://foodinnovation.wales/directory/?lang=cy/>
- Dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â gyrfaedd bwyd a diod: <http://cy.tastycareerswales.org.uk/>
- Cyfarfod ag entrepreneur bwyd <https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy>
- Bod yn entrepreneur bwyd: <https://www.newfoodentrepreneurs.org.uk>
- Cefnogaeth dechnegol ar gyfer y diwydiant bwyd a diod: <http://www.foodcentrewales.org.uk/hafan>
- Cefnogaeth gan y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru: <https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy>



Cydnabyddiaethau

Lluniau siop fferm trwy garedigrwydd Siop Fferm Ystad y Rhug <https://rhug.co.uk/>.

Lluniau gwneud cawl trwy garedigrwydd Uned Cyfeirio Disgyblion Powys